YSGOL CALON CYMRU



# CYCLHLYTHYR YR HAF

## Croeso!

Croeso i gylchlythyr CA5! Yn y cylchlythyr hwn fe welwch enghreifftiau o'r hyn y mae'r disgyblion wedi ei wneud yn yr ysgol ers mis Mawrth. Rydym wrth ein bodd i fedru rhannu gyda chi rai o lwyddiannau a chyraeddiadau'r myfyrwyr, enghreifftiau o wait y disgyblion a pheth gwybodaeth allweddol.

Hoffem ddiolch i'r rhieni a gofalwyr i gyd am eich cefnogaeth barhaus y tymor hwn.

## Neges y Pennaeth

**Wedi blwyddyn brysur arall, mae'n bleser mawr gennyf ein bod yn medru rhannu Cylchlythyr Haf y Chweched Dosbarth gyda chi. Fel y gwelwch ar y tudalennau canlynol, mae ein disgyblion wedi rhagori eleni eto a hynny mewn ystod eang o weithgareddau. Mae ein staff yn parhau i weithio'n galed i roi mynediad iamrediad eang o gyfleoedd dysgu i'n disgyblion a mor braf yw gweld cymaint o'n disgyblion yn ffynnu. Diolch enfawr i staff y chweched Dosbarth a Thîm y Pennaeth am eu gwaith caled yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth, gan mai dim ond trwy weithio mewn partneriaeth gyda chi y gallwn gael y gorau gan bob aelod o gymuned yr ysgol.**

**Rwy'n gobeithio y bydd ein disgyblion i gyd a'n teuluoedd yn mwynhau egwyl haf haeddiannol. Diolch yn fawr.**

Dr Richard Jones
Pennaeth

## DYDDIADAU TYMHORAU

**Tymor yr Hydref**
Dydd Llun 4 Medi
i
Ddydd Gwener
27 Hydref

Hanner Tymor
Dydd Llun 30 Hydref
i
Dydd Gwener
3 Tachwedd

Dydd Llun 6 November
i
Dydd Gwener
22 Rhagfyr

Nadolig
Dydd Llun 25 Rhagfyr
i
Dydd Llun 9 Ionawr

**Dyddiau heb ddisgyblion:**
**Dydd Gwener 1af Medi**
**Dydd Llun 8fed Ionawr**

Ein gweledigaeth yw paratoi myfyrwyr ar gyfer eu llwybrau yn y dyfodol gyda chyngor a chefnogaeth gyrfaoedd penigamp, yn goystal â chynnig cyfleoedd i gyfoethogi eu datganiadau personol, a rhoi i'n myfyrwyr y cyfle gorau posibl i lwyddo gyda'u ceisiadau yn y dyfodol. Rydym yn parhau i gydweithio gyda chyflogwyr i roi cyngor hanfodol i fyfyrwyr, a chefnogaeth gyda lleoliadau gwaith, ffug gyfweliadau ac interniaeth. Er mwyn sicrhau llwyddiant yn CA5, rhaid pontio'r bwlch rhwng TGAU a Safon Uwch, i sicrhau newid llyfn er mwyn datblygu dysgwyr uchelgeisiol, annibynnol, a medrus. Dyluniwyd addysgeg CA5 i feithrin diwylliant dysgu rhagweithiol ac annibynnol yn y myfyrwyr trwy gyfrwng gwersi ysbrydoledig a heriol, ac felly'n annog dysgwyr i gyflawni eu potensial. Mae hyn yn rhywbeth rydym yn parhau i'w ddatblygu trwy ein haddysgu a dysgu wrth symud ymlaen. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda staff, myfyrwyr, rhieni, a rhanddeiliaid eraill ym mis Medi 2023.

# Dewch i gyfarfod y Tîm

## Staff Chweched Dosbarth YCC



Lizzie Tiernan – Pennaeth y Chweched Dosbarth– tiernane5@hwbcymru.net



Ffion Price - Dirprwy Bennaeth y Chweched Dosbarth – pricef146@hwbcymru.net



Lia Price - Rheolwr y Chweched Dosbarth – pricel466@hwbcymru.net

Mae'n flin gennym golli Ms Kerry Derhe o'r tîm wrth iddi symud i addysgu Daearyddiaeth mewn ysgol sy'n agosach at ei chartref. Dymuniadau gorai iddi ar gyfer y dyfodol ac fe'i diolchwn am ei gwaith fel Arweinydd Cynnydd Blwyddyn 12/13 ar Gampws Llanfair-ym-Muallt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda strwythur staffio newydd yn y Chweched Dosbarth yn y flwyddyn academaidd nesaf. Ein bwriad yw datblygu diwylliant o un Chweched Dosbarth yn YCC, a'r nod yw sicrhau llwyddiant hyn wrth i ni symud ymlaen a pharhau i gadw a recriwtio myfyrwyr.

## Prif Dîm y Chweched Dosbarth 2023-24

| | Campws Llanfair | Campws Llandrindod |
|---|---|---|
| Pennaeth | Eleri Daves<br>Maisy Wilcocks | Lexie Morgan-Rogers<br>Sophie Green |
| Dirprwy Bennaeth | Fenella Price<br>Molly Wear | Erin Humphries<br>Louis Watkins |
| Uwch Swyddog | Corey Evans<br>Rachel Rees<br>Rosie Jennings<br>Scarlett Gealy | Amy Jones<br>Demi-Leigh Roberts<br>Rhys Jones |

## Cystadleuaeth Awduron Ifanc y Rotari

Ar ddechrau Tymor yr Haf roedd disgyblion ar y ddau gampws wedi cyflwyno ceisiadau i'r gystadleuaeth ysgrifennu ar y thema 'Heddwch'. Roedd y myfyrwyr yn medru ysgrifennu mewn unrhyw ffurf, ffuglen neu ffeithiol. Roedd beirniaid y Rotari'n llawn edmygedd o safon yr ysgrifennu yn y ddwy adran a thasg anodd iawn oedd dewis y cynigion buddugol. Mae gwaith ysgrifennu Elin ac Isobel wedi mynd ymlaen i rownd nesaf y gystadleuaeth, wrth gynrychioli'r rhanbarth yn rownd derfynol yr ardal. Yr enillwyr oedd:

Awdur Ifanc Uwch y Rotari - Elin Williams Bl13
Ail - Lowri Bayliss Bl11
Enillydd Awdur Ifanc y Rotari
Canolradd - Isobel Crowden Bl7
Ail - Quainaat Munir Bl8



Aeth Elin Williams ymlaen i ennill y wobr Hŷn yn Rownd Derfynol y Cylch o Gystadleuaeth Awduron Ifanc y Rotari. Mae'r ardal yn cynnwys llawer o ganol a de Cymru. Bydd eu gwaith ysgrifennu ar y thema 'Heddwch' nawr yn cael ei ystyried yn y Rownd Derfynol Genedlaethol.

## Pencampwriaethau Trac a Maes Ysgolion Cymru




Llongyfarchiadau i Tristan Tena-Cumberland, disgybl Blwyddyn 12, a gynrychiolodd Powys yng Nghaerdydd ar ddydd Sadwrn $1^{af}$ Gorffennaf ym Mhencampwriaethau Cenedlaethol Trac a Maes Ysgolion Cymru. Enillodd Tristan fedal Aur 1500m a Thystysgrif Fest Cenedlaethol.

## Diwrnod Gadawyr Blwyddyn 13



Ar eu diwrnod olaf gwisgodd myfyrwyr blwyddyn 13 fel rhywbeth oedd yn dechrau gyda llythyren gyntaf eu henw. Cynhaliwyd barbeciw a Gwybrwyon ar gampws Llanfair-ym-Muallt. Pob lwc yn eich dyfodol

## Prom Blwyddyn 13



















Cynhaliwyd prom Blwyddyn 13 ar ddydd Mercher 28$^{ain}$ Mehefin yng Ngwesty'r Commodore Hotel yn Llandrindod.

Cafwyd noson hyfryd ac yn ffarweliad haeddiannol i'n myfyrwyr na chafodd Prom Blwyddyn 11 Prom oherwydd cyfyngiadau COVID.

Roedd pawb yn edrych yn smart iawn, roedd y bwyd yn dda a chafwyd cerddoriaeth campus gan Lucky Pierre i orffen y noson.

Dymunwn yn dda i'r myfyrwyr hyn ym mhennod nesaf eu bywydau.

## Digwyddiad Codi Arian




Cynhaliodd myfyrwyr Blwyddyn 13 noson Bingo yng nghanolfan y Chweched Dosbarth ar ddydd Mercher 3ydd Mai – i godi arian tuag at eu Prom yng Ngwesty'r Commodore ym mis Mehefin – Cafwyd noson lwyddiannus a chodwyd £423 – da iawn i bawb fu ynghlwm.




## Digwyddiad Ted-X

### Digwyddiad Ted-X – Llwybrau Myfyrwyr

TEDx

Siaradwyr a Chyflwyniadau

12.30 David Owen: Prifysgol Caerdydd – Datganiadau Personol Gwych'
12.55 Elwyn Davies: PIXLHAZE – 'Rhyddhau DA'
1.15 Alan Kitto: Ymgynghori AD Pulse Cyf – 'Uchafu eich cyflogadwyedd mewn Byd o Ffyniant ac un Milflynyddol'

C ac A a Chinio


2.00 Blue MacAskill: Syniadau mawr Cymru – 'Entrepreneuriaeth Creadigol'
2.30 Lowri Bulman: Coleg Cymraeg cenedlaethol – 'Cyfleoedd Ysgoloriaeth trwy Addysg Cyfrwng Cymraeg'
2.45 E Tiernan: YCC 'Canllaw Ysgrifennu Datganiad Personol'

Ar ddydd Iau 6ed Gorffennaf cynhaliodd Ysgol Calon Cymru Ddigwyddiad Llwybrau Myfyrwyr TED-X yng Nghanolfan y Chweched Dosbarth yn Llandrindod ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 12 cyfredol.

Roedd y sgyrsiau i gyd yn llawn gwybodaeth ac yn ysgogi'r meddwl ac yn berthnasol i ddysgwyr sy'n dewis llwybrau eu gyrfa. Rydym yn gobeithio parhau i ddatblygu hyn ac yn bwriadu cysylltu siaradwyr yn benodol i feysydd pwnc i godi ymwybyddiaeth am lwybrau gyrfa arfaethedig yn y pynciau cwricwlaidd.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos gydag Elwyn Davies o Pixlehaze a fydd yn gweithio i gefnogi myfyrwyr y chweched dosbarth gyda'u CVs a pharatoi ar gyfer cyfweliadau ayyb.

## Diwrnod Chwaraeon a Diwrnod Llesiant HELP






Diolch i bob un o fyfyrwyr y Chweched Dosbarth a gynorthwyodd ar y diwrnod chwaraeon a diwrnod llesiant.  Gwerthfawrogir eich cefnogaeth ac mae'n eich atgyfnerthu fel modelau rôl y gall y myfyrwyr iau edrych i fyny atynt.

## Profiad Gwaith

Aeth myfyrwyr Blwyddyn 12 ar wythnos o brofiad gwaith o 10fed – 14eg Gorffennaf mewn amryw o leoliadau fel Meddygfeydd Milfeddygon, Campfeydd, Ysbytai, Ffermydd, Ysgolion a Salonau Harddwch – cyfle gwych i roi cynnig ar eu galwedigaeth dewisol yn y dyfodol.

## Wythnos Sefydlu – Blwyddyn 12 newydd

Cynhaliwyd yr wythnos sefydlu yng Nghanolfan y Chweched Dosbarth yn Llandrindod ar gyfer y myfyrwyr sy'n bwriadu dychwelyd i'r Chweched Dosbarth ym mis Medi.

Rhoddwyd cyfle i'r myfyrwyr brofi gwersiyn y pynciau y maent yn bwriadu eu dewis ynghŷd â phrofi amgylchedd canolfan y chweched dosbarth.

**Trefniadau ar gyfer casglu Canlyniadau Arholiadau Mehefin 2023**

Campws Llandrindod

**Gellir casglu canlyniadau arholiad TAG UG ac U2 o ganolfan y chweched dosbarth, rhwng 8.30 am a 9.30am, ar ddydd Iau 17eg Awst.**


**Gellir casglu canlyniadau TGAU blwyddyn 10 a blwyddyn 11 o neuadd yr ysgol, rhwng 8.30 am a 10.00am, ar ddydd Iau 24ain Awst.**

Campws Llanfair-ym-Muallt

**Gellir casglu canlyniadau arholiadau TAG UG ac U2 o'r Bwyty, rhwng 8.30 am a 9.30am, ar ddydd Iau 17eg Awst.**
**Gellir casglu canlyniadau TGAU blwyddyn 10 a blwyddyn 11 o'r Bwyty, rhwng 8.30 am a 10.00am, ar ddydd Iau 24ain Awst.**

Rhaid i ddisgyblion gasglu eu canlyniadau arholiad mewn person.
Os nad ydych yn medru gwneud hyn ac yn dymuno i rywun eu casglu i chi, rhowch lythyr byr o awdurdodiad iddynt wedi ei lofnodi gennych chi.
Os ydych am i ni bostio eich canlyniadau atoch, rhowch **Amlen Hunangyfeiriedig â Stamp** i'r Swyddog Arholiadau **CYN** diwedd tymor yr haf.
Os oes well gennych gael eich canlyniadau mewn e-bost rhowch wybod i'r swyddog arholiadau.

**Swyddogion Arholiad:**
Campws Llanfair-ym-Muallt – Jan Healey
Campws Llandrindod – Lindsey Davies




# UCAS ac Unifrog:

Nawr yw'r adeg i ddechrau cwblhau ymchwil ar gyfer cyrsiau prifysgol / prentisiaeth ar gyfer y dyfodol. Anogir myfyrwyr i weithio ar hyn a'u datganiadau personol yn ystod gwyliau'r Haf. Byddwn yn defnyddio UNIFROG i ymchwilio cyrsiau yn ogystal ag UCAS.

https://www.unifrog.org/


Rhaid i'r myfyrwyr i gyd fewngofnodi gan ddefnyddio e-bost HWB a gofyn i ailanfon cyfrinair os nad ydynt wedi gwneud hyn eisoes. Gall rhieni gofrestru i gefnogi eu plentyn gan ddefnyddio'r cod QR isod a'r cod rhieni hefyd.

https://www.ucas.com/

Rhaid i'r myfyrwyr i gyd gofrestru cyfrif gydag UCAS. Bydd yr adnoddau i gefnogi ceisiadau ar gael ar TEAMS ac wedi eu cysylltu â Moodle o dudalen wefan yr ysgol / maes y chweched dosbarth.

**Parents & guardians, get signed up!**

YSGOL CALON CYMRU




Scan this QR code or go to www.unifrog.org/student and click 'Sign in for the first time'

You'll be asked for some details and a Sign up Code. This is what you need:

<<**YCLNParents**>>

After signing up, log into Unifrog using your email address and password via the student sign-in page! https://www.unifrog.org/code

unifrog

| | |
|---|---|
| Research | Use the parents/guardians' section of the UCAS website at www.ucas.com/parents. |
| Sign up | Sign up for updates from UCAS, and get everything you need to know about the application process direct to your inbox. |
| Open days | Attend virtual events and open days – you may have a different perspective. |
| Be proactive | Make sure they read everything carefully that is sent to them and don't book family holidays at key times! |

# Hysbysebion / I Atgoffa:

**Dyddiadau i'w cofio:**

W/D 10^fed^ Gorffennaf – Profiad gwaith blwyddyn 12
W/D 10fed Gorffennaf – Wythnos Sefydlu Blwyddyn 12 newydd
16eg-19eg Gorffennaf – Alldaith Aur Gwobr Dug Caeredin
20fed Gorffennaf – Trip Blwyddyn 12 i Oakwood
21ain Gorffennaf – Ramble (Campws Llandrindod), Hwyl y Haf (Campws Llanfair-ym-Muallt)

*DS: Rhaid e-bostio absenoldebau i pricel466@hwbcymru.net ac athrawon gwersi a gollwyd yn gofyn iddynt e-bostio gwaith neu ei roi ar Teams*
Disgwylir i bob myfyriwr wirio'i e-bost aTEAMS yn ddyddiol, o ddewis, ar ddechrau a diwedd y dydd fel lleiafswm.

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr wisgo eu llinynnau Chweched Dosbarth Powys m resymau diogelwch ar y campws ac os ydynt yn mynychu ysgolion eraill.

Hefyd, rhaid i fyfyrwyr ddod â chliniaduron a gwifrau gwefru i'r ysgol yn ddyddiol.

Dylai'r myfywyr i gyd ymgysylltu â digwyddiadau ychwanegol sydd i'w cefnogi yn eu llwybrau dewisol gan y rhoddir gwybodaeth hanfodol fydd yn eu cefnogi wrth iddynt gynnig am brifysgol, prentisiaeth neu waith wedi iddynt adael yr ysgol.

Disgwylir presenoldeb pawb ymhob gwers amserlenedig a diwyddiadau'r chweched dosbarth.

- Adnoddau astudio VESPA a Chanllawiau Dysgu Annibynnol ar TEAMS a Moodle a gellir eu cyrchu trwy wefan yr ysgol.
- Mae canllawiau UCAS ac UNIFROG ar gael ar TEAMS a Moodle hefyd.

## Gwybodaeth Cyswllt/Contact Information


**I gysylltu ag aelod o staff/To contact a member of staff:**
Campws Llandrindod/Llandrindod Wells Campus
Ffôn / Phone 01597 822992
office@caloncymru.powys.sch.uk


Gellir cael newyddion am Ysgol Calon Cymru ar ein gwefan neu, i gael ein newyddion diweddaraf, gallwch ein dilyn ar Facebook neu Instagram:

www.ysgolcalon.cymru

@yccofficial_